**Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod ar-lein y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant a gafodd ei gynnal ddydd Llun, 16 Hydref 2023 am 5pm

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio ac mae'r manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol –**
**Roedd yr Aelodau canlynol o'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn bresennol ar-lein**

Y Cynghorydd S Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorydd K Webb
Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd J Cook
Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd S Hickman
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd M Maohoub
Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd D Wood

**Aelodau Cyfetholedig oedd yn bresennol:-**

Mr P Booth – Cynrychiolydd Awdurdodau Esgobaethol â'r hawl i bleidlais
Mr M Cleverley – Cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau a'r Panel Athrawon
Mr R Lydon – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais
Mr L Patterson – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais
Mr M Thomas, Cynrychiolydd NEU

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms C Jones – Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Daniel Williams, Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
Ms Hayley Jacobs, Arweinydd Ysgolion Bro
Mrs S Daniel – Blaen Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd Rhys Lewis, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg
Y Cynghorydd J Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

**Wedi'u gwahodd:-**

Ms E Lewis - Cydlynydd ADY
Mr R Macauly-Lane - Cydlynydd ADY

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Mr M Veale - Aelod Cyfetholedig

24 **DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Y Cynghorydd C Preedy, "Buddiant personol gan fod un o'r Ysgolion Arbennig sydd wedi'u nodi yn Eitem 7 ar yr agenda yn fy ward i"

Y Cynghorydd C Lisles "Buddiant personol gan fod Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen wedi'i nodi yn Eitem 6 ac rydw i'n Llywodraethwr yn yr ysgol hon"

Y Cynghorydd S Hickman "Buddiant personol mewn perthynas ag eitem 6, rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Gymuned y Porth"

Y Cynghorydd S Evans "Buddiant Personol mewn perthynas ag Eitem 6, rydw i wedi fy nghyflogi gan Brifysgol De Cymru"

Ms Rebecca Lydon "Buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 7, mae fy meibion i'n awtistig"

Y Cynghorydd Sera Evans "Buddiant personol mewn perthynas ag eitem 7, mae gan fy mab ddatganiad"

Mr L Patterson "Buddiant personol mewn perthynas ag eitem 7, mae gan fy mab ddatganiad ac mae e'n derbyn ei addysg yn RhCT"

25 **COFNODION**

**PENDERFYNWYD**: Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023 yn gofnod cywir o’r cyfarfod.

26 **DOLENNI YMGYNGHORI**

Cafodd Aelodau wybod am yr ymgynghoriadau agored diweddaraf sydd wedi'u rhannu ag Aelodau, gan nodi bod modd i Aelodau gysylltu â'r Garfan Graffu os oes unrhyw ymholiadau gyda nhw.

27 **Ymgysylltu ag Aelod o'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw graffu ar y penderfyniadau a gafodd eu gwneud gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg yn ystod y cyfnod a nodir yn yr adroddiad, a sicrhau bod y mecanweithiau priodol yn eu lle i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol.

Gofynnodd Aelod am y cynigion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i sicrhau bod yr Awdurdod yn annog y defnydd o'r Gymraeg. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi ateb drwy nodi mai un o flaenoriaethau allweddol yr Awdurdod Lleol yw cyflawni targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru wedi pennu sawl targed ar gyfer yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref ac yn ein hysgolion. Dywedodd fod yr

Awdurdod wedi buddsoddi Adnoddau Cyfalaf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, er mwyn gwella adeiladau a chyfleusterau yn ogystal ag adeiladu nifer o ysgolion cynradd sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Ychwanegodd fod yr Awdurdod yn gweithio gyda darparwyr y Blynyddoedd Cynnar er mwyn buddsoddi mewn cyfleusterau y Blynyddoedd Cynnar i wneud y Gymraeg yn fwy deniadol o oedran iau, yr uchelgais yw y bydd y plant yma'n parhau i fynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg trwy gydol eu haddysg.

Gofynnwyd i'r Aelod o'r Cabinet roi sylwadau ar y Buddsoddiad Cyfalaf sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad gan Estyn a gofynnodd Aelod a oes unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r deilliannau gwell ar gyfer disgyblion a argymhellir. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor wedi ymrwymo i adeiladu tair ysgol gynradd newydd yn y Fwrdeistref, ac mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y safleoedd yma. Ychwanegodd fod y Gweinidog dros Addysg wedi ymweld â'r safleoedd ac roedd yn falch o weld y cynnydd sydd wedi'i wneud ar gyfer ein plant a phobl ifainc. Esboniodd fod blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod yn cynnwys sicrhau bod y cyfleusterau gorau ar gael ar gyfer ein dysgwyr, mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau i adnewyddu ein hysgolion presennol i wella cyrhaeddiad, yn ogystal ag adeiladu cyfleusterau newydd. Nododd fod ein plant yn haeddu'r cyfleusterau gorau ar gyfer eu haddysg.

Cyfeiriodd Aelod at yr argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad gan Estyn, a gofynnodd i'r Aelod o'r Cabinet am ei farn e mewn perthynas â sut y bydd modd gwella'r rhain yn RhCT.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi ymateb drwy ddweud bod y rhan fwyaf o'r adroddiad gan Estyn yn cynnig adlewyrchiad cywir o safon uchel yr Addysg sydd ar gael ledled yr Awdurdod, gan gydnabod bod cyfleoedd i wella. Nodwyd bod modd gwella'r trefniant o weithio mewn partneriaeth â'r Consortiwm, a bydd y meysydd sy'n ymwneud â hunanwerthuso hefyd yn cael eu hadolygu er mwyn gwella effeithlonrwydd. Ychwanegodd fod yr adroddiad yn rhoi pwyslais ar Arweinyddiaeth llawn pwrpas a bod hyn yn adlewyrchu safon yr uwch swyddogion a'r dull arweinyddiaeth strategol sydd ar waith yn RhCT. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu sut rydyn ni'n blaenoriaethu cynorthwyo'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref, a'r sylwadau mewn perthynas â'n strategaeth hir dymor ar gyfer cynllunio olyniaeth.

Gofynnodd Aelod am eglurder ynghylch faint o amser y bydd modd i'r ysgol arbennig newydd gwrdd â'r galw o ran lleoedd.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi ymateb drwy ddweud bod tri lleoliad bron yn llawn neu eisoes yn llawn, mae hyn adlewyrchu'r galw cynyddol sy'n wynebu'r gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu darparu gan yr ysgolion yma. Ychwanegodd fod y safle ar gyfer yr ysgol arbennig newydd yng Nghwm Clydach yn safle mawr, a bydd yn darparu'r cyfleusterau gorau ar gyfer ein dysgwyr ac yn cynorthwyo'r Cyngor o ran cwrdd â'r gofynion mewn perthynas â chapasiti. Daeth yr Aelod o'r Cabinet â'i gyfraniad i ben drwy ddweud y bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar gyfleoedd i ddarparu capasiti ychwanegol ar safleoedd presennol er mwyn parhau i gwrdd â'r galw.

Gofynnodd Aelod am ragor o fanylion am y buddsoddiadau i faes Addysg yn RhCT yn y dyfodol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi ymateb drwy ddweud bod yr Awdurdod Lleol ymhlith yr awdurdodau arweiniol o ran manteisio ar gyllid Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae ein perthynas agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ein galluogi ni fel

Cabinet i gyflawni ein blaenoriaethau. Aeth ati i gydnabod bod yr Awdurdod wedi parhau i flaenoriaethu a diogelu gwaith darparu'r gwasanaethau addysg er gwaetha'r pwysau economaidd a'r cyfyngiadau ar y gyllideb. Mae Addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, yn ogystal â sicrhau bod ein cyfleusterau addysg hefyd yn cynnig cyfleusterau ar gyfer ein cymunedau, a hynny tu hwnt i'r cwricwlwm a'r diwrnod ysgol.

Gofynnodd Aelod sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phobl ifainc y Fwrdeistref i sicrhau eu bod nhw'n effro i unrhyw gynigion a bod cyfle gyda nhw i ddweud eu dweud cyn i unrhyw benderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu dyfodol gael eu gwneud. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi ymateb drwy ddweud bod barn pobl ifainc yn allweddol a'i fod ef, ar y cyd ag uwch swyddogion, yn ymgysylltu â Fforwm Ieuenctid y Sir, y Gwasanaeth Ieuenctid a Chynghorau Ysgol yn rheolaidd i geisio'u barn a'u hadborth nhw ar faterion sy'n effeithio ar ein Plant a Phobl Ifainc. Un enghraifft o'r gwaith ymgysylltu yma yw'r broses o enwi ysgol newydd, mae'r disgyblion yn rhan bwysig o'r gwaith yma, sydd ar waith i sicrhau eu bod nhw'n teimlo'n rhan o'r broses.

Holodd Aelod a fydd gan y Pwyllgor unrhyw gyfleoedd pellach yn y dyfodol i graffu ar benderfyniadau'r Aelod o'r Cabinet, er enghraifft y cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, lle nad yw penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â'r mater yma.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod y bydd cyfle i Aelodau graffu ar y mater yma yn rhan o sesiwn ymgysylltu gyda'r Aelod o'r Cabinet neu yn rhan o waith rhag-graffu cyn i benderfyniad gael ei wneud.

Holodd y Cadeirydd a fyddai modd i'r Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ar daith yr Awdurdod i sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i ddysgwyr a phobl ifainc ag anghenion addysgol arbennig, i sicrhau bod modd iddyn nhw gael mynediad i'r cymorth gorau posibl trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod un o flaenoriaethau allweddol yr Awdurdod yn cynnwys datblygu'u cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol ledled y Fwrdeistref Sirol yn unol â'r ddeddfwriaeth i sicrhau bod y cyfleusterau gorau posibl ar gael i'n dysgwyr. Ychwanegodd fod yr Awdurdod wedi buddsoddi £1.2miliwn ym maes ADY a dosbarthiadau cynnal dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf. Ychwanegodd fod yr Awdurdod yn awyddus i barhau i fuddsoddi yn y maes yma gan darfu cyn lleied â phosibl ar addysg plant. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod eu bod nhw'n parhau i ddatblygu'u dosbarthiadau ADY yn y lleoliadau cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r uchelgeisiau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae hyn yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Yn dilyn trafodaeth, dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Aelod o'r Cabinet am fynychu'r cyfarfod ac am ateb cwestiynau'r Aelod, roedd y Cadeirydd yn edrych ymlaen at wahodd yr Aelod o'r Cabinet i gyfarfod arall yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**:

1. Craffu ar yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg mewn perthynas â materion sydd wedi cael eu trafod gan y Cabinet, a'u cymeradwyo gan y Cabinet, ac unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn ystod y cyfnod rhwng 11 Mai - 16 Hydref 2023

2. Nodi unrhyw feysydd sy'n codi o'r materion hynny a bennwyd yn ystod y

cyfnod yma y mae'r Pwyllgor yn dymuno cynnal gwaith craffu pellach arnyn nhw, a hynny'n rhan o'r diwygiadau i raglen waith y Pwyllgor, mewn perthynas ag Addysg a Chynhwysiant.

**28 Enwebu Aelodau – Tlodi Plant**

Yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 27 Medi, gofynnwyd i'r Aelodau enwebu dau Aelod o'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant i dderbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i gyfrannu at drafodaethau ar y Rhybudd o Gynnig – Tlodi Plant

**PENDERFYNWYD** enwebu'r Cynghorydd S Emmanuel a'r Cynghorydd C Preedy i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu er mwyn cyfrannu at drafodaethau am y Rhybudd o Gynnig - Tlodi Plant.

**29 Y Diweddaraf - Tlodi Plant ac Ysgolion Bro**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles adroddiad i Aelodau mewn perthynas â'r Dull Ysgolion Bro yn RhCT. Mae'r adroddiad yn cynnig diweddariad pellach yn dilyn yr adroddiad a gafodd ei rannu ag Aelodau ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad yn trafod y dull o ran ymgysylltu â theuluoedd a defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a'r Cabinet yn y maes yma, yn ogystal â rhywfaint o'r Grant Cyfalaf y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i RCT. Aeth y Swyddog ati i egluro bod yr adroddiad hefyd yn trafod y gwaith sydd wedi'i wneud i liniaru effaith tlodi ar ddysgwyr a'u teuluoedd fel bod modd cael gwared ar unrhyw rwystrau i addysg.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Cyfeiriodd Aelod at y dull ymgysylltu â'r gymuned gan holi a yw'r gweithgareddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig tu hwnt i oriau ysgol yn hawdd eu cyrraedd ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, e.e. does dim angen cadw lle ar-lein, talu ar gyfer gweithgareddau a threfnu cludiant i/o'r gweithgareddau.

Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi ymateb drwy ddweud bod y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn gweithio'n agos gydag ysgolion i wneud yn siŵr bod cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion fel bod modd iddyn nhw fynychu'r gweithgareddau a theithio adref yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd e wedi cydnabod bod gwaith dadansoddi data yn dangos bod angen cynnal gwaith a gwaith datblygu pellach yn y maes yma i weld a oes modd goresgyn y costau uchel sy'n gysylltiedig â chludiant.

Nododd Aelod nad oes modd i rai rhieni sy'n byw mewn tlodi fynychu nosweithiau rhieni gan fod eu plant yn dal y bws i'r ysgol a dydy'r rhieni ddim yn gallu teithio yn ôl i'r ysgol ar gyfer yr apwyntiadau gyda'r nos. Nododd yr Aelod fod cynnal y cyfarfodydd yma yn y gymuned fel bod modd i bob rhiant fynychu wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol. Cytunodd y Cadeirydd a nododd fod llai na 50% o ysgolion yn cynnig gweithgareddau ar ôl ysgol a bod angen gwneud rhagor i fynd i'r afael â Thlodi Plant a'r rhwystrau y mae'r teuluoedd yma'n eu hwynebu. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gostyngiad (61.5% i 59.3%) yn nifer yr ysgolion sydd ag aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am ddatblygu a gwella gwaith amlasiantaeth, a nododd fod angen ymchwilio ymhellach i'r gostyngiad yma.

Wrth ymateb i ymholiad gan Aelod am waith amlasiantaeth a chymorth trydydd parti mewn perthynas â materion mynychu'r ysgol, rhoddodd y Pennaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wybod bod llawer o waith yn cael ei wneud yn y maes yma, er bod llawer o waith eto i'w wneud. Ychwanegodd fod y gwasanaeth yn cynnal trafodaethau strategol gyda sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â darparu cyfleoedd cyd-leoli mewn ysgolion e.e. cymorth iechyd meddwl ac ymwelwyr iechyd ochr yn ochr â gwasanaethau addysg canolog, mae'r trafodaethau yma yn y camau cynnar ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod a yw'r fenter Big Bocs Bwyd yn cysylltu â banciau bwyd i sicrhau bod gwasanaeth cofleidiol ar gael wrth i deuluoedd gael eu hatgyfeirio i'r Banc Bwyd. Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi ymateb drwy nodi bod Big Bocs Bwyd fel arfer yn cael ei weithredu gan Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd sydd â chysylltiadau agos â'r banciau bwyd ac sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion y teulu. Ychwanegodd fod y fenter hon yn rhoi cyfle i deuluoedd fanteisio ar adnoddau, megis gwisg ysgol drwy'r cynllun ailgylchu a nwyddau glanweithiol, yn ogystal â bwyd - mae'r rhain yn cael eu hariannu gan yr Awdurdod Lleol.

Cyfeiriodd Aelod at fodel Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ysgolion Bro, yn enwedig erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig, sy'n rhoi'r hawl i Chwarae, Addysg, Iechyd, Tai a Bwyd i blant. Mynegodd yr Aelod bryderon am y ffaith nad yw'r cynllun Prydau Ysgol am Ddim yn cael ei lansio tan fis Medi 2024, felly a oes modd gwneud unrhyw beth yn y cyfamser i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn RhCT yn mynd heb fwyd, a hithau'n Aelod o'r Awdurdod Lleol, roedd hi'n poeni am y mater ac roedd hi wedi cael gwybod bod hyn yn digwydd, yn enwedig lle nad oedd gan deuluoedd atebolrwydd i gronfeydd cyhoeddus.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wybod bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r Gwasanaethau i Blant y mis diwethaf i drafod y mater gyda Cholegau a Phrifysgolion yn ardal RhCT, gan fod nifer o'r teuluoedd sydd heb atebolrwydd i gronfeydd cyhoeddus yn fyfyrwyr â theuluoedd sy'n dewis dod i'r DU gyda'r myfyriwr. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y mater yma eisoes wedi'i godi gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a phwysleisiodd y dylai Ysgolion sy'n poeni bod plant yn mynd heb fwyd gyfeirio'r mater at y carfanau Diogelu ar unwaith. Daeth â'i chyfraniad hi i ben drwy nodi bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn gwneud cynnydd da o ran cyflwyno'r cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Blant Ysgolion Cynradd yn gynt na'r disgwyl.

Gofynnodd Aelod arall am ddadansoddiad pellach o'r arolwg sydd wedi'i nodi ym mharagraff 15.2 o'r adroddiad, a hynny oherwydd y nifer bach o ymatebion a derbyniwyd yn ogystal â'r posibilrwydd bod yr un bobl wedi ymateb yr ail dro. Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi nodi bod yr arolwg yn cymryd 20 munud i'w gwblhau ac roedd pob cwestiwn yn cynnwys blwch atodol sy'n cael ei ddadansoddi i fesur anghenion cymorth, felly mae cyfradd ymateb o 83% yn uchel iawn. Derbyniodd yr ail arolwg cyfradd ymateb o 51% sydd, unwaith eto, yn uchel ar gyfer arolwg.

Cyfeiriodd Aelod at ddefnyddio cyfleusterau yn y Gymuned a dywedodd y dylai'r awdurdod fod yn ymgynghori â'r gymuned sy'n byw yn yr ardal gyfagos pan fyddan nhw'n ystyried agor neu ymestyn oriau agor y cyfleusterau, gan y byddan nhw'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles y bydd unrhyw gynigion yn destun gwaith

ymgynghori â'r gymuned a bydd cyfle i ddarparu adborth am unrhyw gynigion yn unol â'r trefniadau cynllunio arferol.

Nododd Aelod y byddai wedi bod yn dda gweld cyfres o ddeilliannau cadarn mewn perthynas â sut mae llwyddiant yn edrych a sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur wrth fynd i'r afael â Thlodi Plant ac Ysgolion Bro. Ychwanegodd yr Aelod y byddai'n wych gweld dull strategol yn cael ei fabwysiadu, sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu manwl yn ogystal ag adolygiad o'r canlyniadau i asesu'r effaith. Cytunodd y Cadeirydd y byddai hi hefyd yn hoffi gweld cynllun gweithredu sy'n cynnwys Dangosyddion Cyflawniad Allweddol a chyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu roi gwybod am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn rhan o'r Strategaeth Tlodi Plant. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles mai'r bwriad yw defnyddio'r Strategaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Atodiad fel y ddogfen strategol, mae yna ddogfen fframwaith/pecyn cymorth sy'n cyd-fynd â'r ddogfen yma ac mae'r ddogfen yma'n cael ei defnyddio ar gyfer dulliau gweithredol, sy'n cynnwys Dangosyddion Cyflawniad Allweddol yn dilyn gwaith mapio cymunedol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybod eu bod nhw'n trio symleiddio'r cynlluniau strategol a'u cynnwys nhw yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod gan y Cynllun Cyflawni Blynyddol meini prawf llwyddiant gyda mesurau pellach yn ystod y flwyddyn academaidd hon, ac mae Tlodi Plant yn tanategu'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'r mater yn cael ei drafod ar lefel corfforaethol ac ar draws y Cyfarwyddiaethau i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn cael ei werthuso ac yn cyflawni'r effaith a ddymunir.

Nododd y Cadeirydd ei bod hi'n falch o ddarllen bod hyfforddiant wedi'i gynnig i Lywodraethwyr mewn perthynas â'r agenda Ysgolion Bro, mae hi'n bwysig bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnig ym mhob ysgol. Ychwanegodd y byddai hi'n hoffi gweld yr eitem yma'n cael ei thrafod gan y Pwyllgor eto, gan gynnwys manylion am faint o bobl sy'n manteisio ar y mentrau gwahanol, megis Big Bocs Bwyd a sut mae modd gwella darpariaeth y gwasanaethau yma i roi cymorth i'r teuluoedd sydd eu hangen fwyaf. Dylai'r adroddiad gynnwys data am yr ymatebion i'r arolwg. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol gan nodi y byddai'n wych clywed ganddyn nhw.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant eu bod nhw'n trafod yr eitem yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Corfforaethol fel bod modd cymryd camau mewn perthynas â sut bydd y Gyfarwyddiaeth yn bwrw ymlaen â'r Cynllun Cyflawni yn ystod y flwyddyn academaidd ac yna bydd modd darparu hunanwerthusiad i Aelodau. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, a nododd mai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd y cyntaf i gael cyfle i lunio'r cynlluniau penodol mewn perthynas â Thlodi Plant, a hynny yn rhan o Rybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi effaith gadarnhaol y gwaith sydd wedi'i gynnal ynghylch Ysgolion Bro a'r agenda Tlodi Plant yn ogystal â'r camau nesaf.
2. Trafod yr eitem yma unwaith eto yn ystod cyfarfod arall o'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant, a hynny er mwyn ategu trafodaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

## 30 DIWEDDARIAD AR AIL FLWYDDYN GWEITHREDU DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG 2018 YNG NGHYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant yr adroddiad i'r Aelodau, sy'n cynnwys diweddariad ar weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2018) a'r Cod ADY yng Nghymru (2021) yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Croesawodd y Cadeirydd y Cydlynwyr ADY i'r cyfarfod, gan ddiolch iddyn nhw am gyfrannu at y trafodaethau.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Gofynnodd Aelod a yw'r swyddogion o'r farn bod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yn RhCT. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant fod gwaith adlinio dosbarthiadau cynnal dysgu yn cael ei gynnal yn aml ac rydyn ni'n ceisio sicrhau bod y dosbarthiadau cynnal dysgu yn cael eu dosbarthu'n deg ledled y Fwrdeistref Sirol. Rydyn ni o hyd yn ceisio gwella'n cyfleusterau i sicrhau eu bod nhw'n addas ar gyfer cwricwlwm yr 21ain ganrif. Ychwanegodd nad oedd hi o'r farn bod unrhyw fylchau ar hyn o bryd, ond roedd hi'n cydnabod bod angen adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd.

Gofynnodd Aelod a yw'r porth sy'n cael ei ddefnyddio gan staff ysgol wedi'i wella. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant fod newidiadau wedi'u gwneud i wella a symleiddio'r broses yn dilyn adborth gan y Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ychwanegodd fod swyddogion wedi ymchwilio i achosion o wrthod ceisiadau ac mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio i wella'r broses o gyflwyno cais. Nododd y Swyddog fod y ffurflen Gwneud Cais am Leoliad Arbenigol hefyd wedi cael ei hadolygu a does dim angen i'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol gyflwyno cynifer o ffurflenni erbyn hyn. Roedd hi'n cydnabod bod y broses yma'n broses newydd arall - ond nododd fod y broses wedi'i symleiddio.

Rhoddodd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol wybod bod y porth wedi cyflwyno rhai heriau ac er bod rhai heriau bach o hyd, mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud llawer o waith i wella'r broses. Ychwanegodd fod gweithgor wedi adolygu ac asesu pa welliannau y mae modd eu gwneud ac mae'r rhain wedi'u gweithredu erbyn hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd a yw'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn teimlo bod ganddyn nhw'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod modd iddyn nhw gyflawni'u dyletswyddau.

Roedd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol o'r farn ei bod hi mewn sefyllfa ffodus, mae ei Phennaeth hi'n darparu arweinyddiaeth gadarn ac roedd hi'n angerddol dros gynhwysiant ac yn rhoi amser i sicrhau bod modd i'r garfan wella'u sgiliau. Roedd hi o'r farn bod ei hysgol hi wedi ymrwymo'n llwyr i anghenion y myfyrwyr ac yn canolbwyntio ar gymorth ADY, maen nhw'n cael eu cefnogi gan gynorthwywyr ac yn derbyn cymorth gweinyddol hefyd. Cadarnhaodd Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol arall ei bod hi mewn sefyllfa debyg, eleni mae ganddi rôl sydd ddim yn cynnwys addysgu fel bod modd iddi ganolbwyntio ar ADY. Yn ogystal â hyn mae ganddi Ddirprwy

Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nododd hefyd fod ceisio addysgu yn ogystal â chyflawni rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn heriol.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod y byddai'r Pwyllgor yn hoffi trafod yr eitem yma eto yn rhan o'u Rhaglen Waith, a bydden nhw'n hoffi gweld canfyddiadau, data a deilliannau'r dasg Sicrhau Ansawdd ac Arferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant y bydd gwaith Sicrhau Ansawdd yn parhau dros gyfnod o dair blynedd, fodd bynnag bydd adborth yn cael ei ddarparu drwy gydol y broses. Esboniodd i'r Pwyllgor eu bod nhw wedi rhyddhau Arweinwyr Clwstwr Anghenion Dysgu Ychwanegol am 12 diwrnod yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, a hynny gyda chymorth cyllid grant. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda Chydlynwyr Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol i sefydlu proses Sicrhau Ansawdd â haenau gwahanol. Cadarnhaodd y bydd deilliannau'r broses yn cael eu defnyddio i roi adborth i'r fforymau i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Aeth ymlaen i ddweud eu bod nhw'n gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y Penaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Swyddogion Gwella a byddan nhw'n datblygu sesiynau hyfforddiant sy'n trafod arferion cynhwysol, dulliau hunanwerthuso ADY effeithiol a sut mae modd defnyddio'r deilliannau hunanwerthuso er mwyn cyfrannu at gynlluniau datblygu ysgolion.

Holodd y Cadeirydd am y cyfnod pontio ar gyfer y dysgwyr yma wrth iddyn nhw symud i addysg ôl-16 - ydyn nhw'n parhau i fynychu'r ysgol neu'n symud i'r coleg neu'n dod o hyd i ddarpariaeth amgen?

Darparodd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ymateb ysgrifenedig canlynol o ganlyniad i broblemau technegol:

- Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r coleg, mae nifer o fyfyrwyr wedi penderfynu astudio cyrsiau ymarferol, fel arlwyo.
- Mae gyda ni system bontio gadarn ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n parhau i'r 6$^{ed}$ dosbarth. Weithiau mae hyn yn broses well ar gyfer ein myfyrwyr gan eu bod nhw eisoes yn gyfarwydd â'r safle a'r staff.
- Rydyn ni wedi profi llwyddiant mawr yn y gorffennol gyda myfyrwyr sy'n symud i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn dilyn y prosiect.

Gofynnodd y Cadeirydd am ragor o fanylion am yr archwiliad o'r gweithlu ADY a gynhaliwyd yn y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a lleoliadau arbenigol yn RhCT yn ogystal â gwaith datblygu cyfle datblygu proffesiynol ar y cyd ar gyfer Penaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Swyddogion Gwella Consortiwm Canolbarth y De er mwyn sicrhau bod yna dealltwriaeth a rennir mewn perthynas â phroses hunanwerthuso ADY.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant wybod bod y Cod ADY yn nodi bod angen datblygu system ddwyieithog gyda Llywodraeth Cymru, gan gydnabod bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd. Esboniodd fod nifer o awdurdodau lleol yn wynebu'r un heriau ar lefel genedlaethol. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn cydnabod y diffyg o ran adnoddau cyfrwng Cymraeg ac o ran y gweithlu ar lefel genedlaethol. Rydyn ni'n hyderus bod gyda ni arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg ym mhob un o'n gwasanaethau yn lleol, fodd bynnag, mae angen i ni feithrin mwy o gydnerthedd yn rhan o gynllun gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau bod

swyddi sy'n nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar waith ym mhob un o'n meysydd gwasanaeth.

Esboniodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld yr eitem yma'n dychwelyd i'r Pwyllgor yn y dyfodol, er mwyn rhannu data am y broses sicrhau ansawdd, gan gynnwys deilliannau a'r effaith ar ein dysgwyr. Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod a dymunodd y Pwyllgor hefyd ddiolch i'r Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol am fynychu'r cyfarfod a chyfrannu.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Craffu ar yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, a chyflwyno sylwadau arni.
2. Cynnwys yr eitem yma yn rhan o agenda arall yn y dyfodol, ar adeg briodol, er mwyn trafod data o'r broses Sicrhau Ansawdd, gan gynnwys deilliannau a'r effaith ar ddysgwyr.

## 31 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN

## 32 MATERION BRYS

Dim

**Y Cynghorydd S Evans**
**Cadeirydd**

.